

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn
Cadeirydd: Alwyn Roberts

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Ionawr 5ed, 2016

Presennol: Alwyn Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is gadeirydd), Huw Antur, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1519 Dymunodd y Cadeirydd Flwyddyn Newydd Dda i'r Cynghorwyr ac estynnodd gydymdeimlad gydag aelodau teulu'r diweddar Mrs Heulwen Jones Williams, Gwernhefin. Nid oedd ymddiheuriadau wedi dod i law.

1520 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1521 Nid oedd datganiadau buddiant.

1523 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 1af o Ragfyr, 2015.

1524 Adroddodd y Clerc fod mater Biniau Halen yn destun e-byst rhwng Cyngorau ar draws Gwynedd a darllenodd cyngor SLCC ar glirio eira.

1525 **Adroddiad y Cyngorydd Sir:** adroddodd y Cyngorydd Alan Jones Evans iddo gael cyfarfod gyda'r deilydd portffolio am y mater biniau halen a bydd cyfarfod buan i geisio cael datrysiad i bryderon ardaloedd gwledig sy'n dioddef llawer o rew ac eira. **Cytunwyd** i'r Clerc i fynegi pryderon y Cyngor Cymuned wrth y deilydd portffolio.

Roedd Alan Jones Evans wedi derbyn ymateb cyntaf Cyfoeth Naturiol Cymru am y pryderon ynglŷn â gwely'r afonydd, ac mae wedi trefnu cyfarfod safle'r wythnos hon. Mae'n fater o argyfwng oherwydd y llifogydd yn gyffredinol a'r ffaith fod y briffordd wedi ei chau pedair gwaith mewn dau fis, y bygythiad i dir ac adeiladau amaethyddol ac i wyneb y llwybr.

Adroddodd ymhellach fod dŵr yn codi wyneb y ffordd wrth y Lôn a bod dŵr yn llifo i loches bws y Lôn. Mae'r materion hyn yn derbyn sylw'r Cyngor Sir.

Mynegodd ei bryderon am oedi pellach i ddatblygiad ar safle Ysgol y Berwyn oherwydd bod yr adeiladau brics coch ar y safle o fewn ardal cadwraeth tref Y Bala.

Ni fydd newid i ffiniau ardaloedd sy'n cael eu cynrychioli gan Gyngorwyr Gwynedd tan ar ôl i'r newidiadau yn niferoedd a maint y Cyngorau Sir cael eu penderfynu.

1526 Materion Eiddo'r Cyngor

- i. Llochesi Bws - ystyriwyd y dyfynbrisiau a ddaeth i law a **chytunodd Karl Jones** i gysylltu gyda'r contractwr a ddewiswyd. **Cytunwyd** i'r Clerc ofyn am bris ar gyfer 2 gôt o staen i bren mewnol a thu allan lloches bws Tŷ'n Ddôl.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

- ii. Hysbysfwrdd y Fynwent - mae'r hysbysfwrdd wedi ei harchebu. **Cytunwyd** i ail-osod y giât i Nyrs y fynwent pan fydd y tywydd yn ffafriol a diolchwyd i Rhodri Jones, Huw P Roberts ac Alan Jones Evans am eu cymwynasgarwch.

1527 Materion ariannol –

- i. Derbyniwyd Cofnodion Is-bwyllgor Cyllid 6/12/15 a chytunwyd gydag argymhelliad yr is-Bwyllgor ar gyfer Praesept 2016-17.
- ii. **Cytunwyd** i dalu anfonebau'r mis a diolchwyd i Bethan Edwards am ddatrys biliau British Gas. **Cytunwyd** i chwilio mewn da bryd am gyflenwr pan ddaw'r Cytundeb gyda BT i ben.

1528 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:

- i. Estynnodd Huw Antur wahoddiad i'r Cyngorwyr i noson gymdeithasol yng Nglan Llyn.
- ii. Cytunodd Huw Antur i bwrcasu'r teclyn a fydd yn rheoli'r sustem dŵr yn y toiledau cyhoeddus.

1529 Cytunodd y Cadeirydd i gyflwyno Adroddiad ar waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn y Cyfarfod Blynyddol gan gynnwys gwahodd awgrymiadau ar wario arian Cwt yr Hers ar brosiect bach arbennig.

1530 Gohebiaeth:

- i. **Parc Cenedlaethol Eryri:** derbyniwyd gwybodaeth fod ymgynghoriad ar Ganllaw Atodol "*Asesiad o Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd*" ar gael ar wefan y Parc, a disgwylir ymatebion erbyn 12/2/16
- ii. **Cymeradwywyd** cais cynllunio **NP5/71/330A** sef codi adeilad amaethyddol ar dir Cefn Gwyn, Llanuwchllyn LL23 7UN.
- iii. **Derbyniwyd** gwybodaeth oddi wrth Edwina Hart bod blaenoriaethau diogelwch a chyflymdra ar gael ar <http://www.traffic-wales.com/Trunkroadsafetyreview>
- iv. **Derbyniwyd** copi o Drawsgludiad Cwt yr Hers a chyfarwyddwyd y Clerc i'w drafod gyda'r Cyfreithwyr.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 2/2/16